***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 12. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## SAFLEOEDD NAD YDYNT YN SAFLEOEDD RHEOLEIDDIEDIG

*Esemptiad dros dro ar ôl marwolaeth perchennog, neu newid arall yn y perchennog*

12 (1) Os bydd deiliad trwydded safle ar gyfer safle rheoleiddiedig yn marw, neu os ceir newid o ran pwy yw perchennog safle y mae trwydded safle mewn grym ar ei gyfer am unrhyw reswm arall, nid yw'r safle'n safle rheoleiddiedig yn ystod y cyfnod o 3 mis sy'n dechrau â diwrnod marwolaeth neu newid y perchennog (y "cyfnod esempt cychwynnol").

(2) Ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod esempt cychwynnol, neu unrhyw gyfnod wedyn a bennir o dan yr is-baragraff hwn, os bydd cynrychiolydd personol y perchennog marw neu'r perchennog newydd yn gwneud cais i'r awdurdod lleol y mae'r safle o fewn ei ardal, caiff yr awdurdod lleol drwy hysbysiad a ddyroddir i'r ymgeisydd ddarparu nad yw'r safle i fod yn safle rheoleiddiedig yn ystod y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu gwrthod cais o dan is-baragraff (2) rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 64(2)**

**I2** Atod. 1 para. 12 mewn grym ar 1.10.2014 gan O.S. 2014/11, **ergl. 3(1)(a)** (ynghyd ag ergl. 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 12.